CYHOEDDIAD

# Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

Llythyr at awdurdodau cynllunio lleol yn cyhoeddi newidiadau i Benderfyniadau ar ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Gorffennaf 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 20 Gorffennaf 2021

Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-2175-21

Penaethiaid Cynllunio,
Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Gyfeillion,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-cynllunio-adeiladau-rhestredig-ac-ardaloedd-cadwraeth-cymru-diwygio-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Newidiadau i benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer newid neu estyn adeiladau rehstredig

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod **Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2021** wedi'u gosod gerbron y Senedd, ac yn ddarostyngedig i benderfyniad y Senedd, mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 16 Awst 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 trwy ddileu'r gofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol ("ACLl") gyflwyno eu ceisiadau eu hunain am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ("LBC") sy'n ymwneud â'r newid neu estyn adeilad rhestredig yn eu hardal eu hunain, i Weinidogion Cymru ei benderfynu. Rhaid i geisiadau o'r fath gan ACLl nawr gael eu gwneud i'r ACLl, a pheidio â chael eu penderfynu gan:

1. pwyllgor neu is-bwyllgor o'r ACLl sy'n llwyr neu'n rhannol gyfrifol am reoli unrhyw adeilad y mae'r cais LBC yn ymwneud ag ef, neu
2. gan swyddog yr ACLl os yw ei gyfrifoldebau'n cynnwys unrhyw agwedd ar reoli unrhyw adeilad y mae'r cais LBC yn ymwneud ag ef.

Sylwch y bydd yn ofynnol o hyd i geisiadau LBCs gan ACLl sy'n ymwneud â dymchwel (fel y'u diffinnir gan gyfraith achos) adeilad rhestredig, yn ogystal â cheisiadau Cydsyniad Ardal Gadwraeth gan ACLl gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru, a'u penderfynu arnynt.

Mewn amgylchiadau lle mae LBC yn bwriadu cael ei ganiatáu, bydd yn ofynnol o hyd i ACLl hysbysu Gweinidogion Cymru, trwy Cadw, o'u bwriad i wneud hynny, yn unol ag Adran 13 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 , yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod dirprwyedig a fyddai'n dad-gymhwyso'r gofyniad hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-cynllunio-adeiladau-rhestredig-ac-ardaloedd-cadwraeth-cymru-diwygio-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ni fydd Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn berthnasol i unrhyw gais am LBC a dderbynnir gan Weinidogion Cymru cyn i'r rheoliadau ddod i rym ar 16 Awst 2021.

Yn gywir,

Neil Hemington

Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
**prifswyddogcynllunio@gov.wales**
Gwefan : **www.llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-cynllunio-adeiladau-rhestredig-ac-ardaloedd-cadwraeth-cymru-diwygio-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-cynllunio-adeiladau-rhestredig-ac-ardaloedd-cadwraeth-cymru-diwygio-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/rheoliadau-cynllunio-adeiladau-rhestredig-ac-ardaloedd-cadwraeth-cymru-diwygio-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.